# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

**06/07/2010**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cyllideb Canghellor y DU

**C11 Gareth Jones:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o effaith datganiad cyllideb Canghellor y DU ar Gymru? OAQ(3)3004(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mynegodd datganiad y Cabinet ar 23 Mehefin ein pryder y bydd y gyllideb yn effeithio ar bobl fwyaf diamddiffyn Cymru, tra'n rhoi ein hadferiad economaidd yn y fantol. Nid yw'n cydnabod casgliad Comisiwn Holtham fod Cymru'n cael ei thangyllido. Yr ydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i gymryd camau i unioni hyn yn yr adolygiad o wariant yn yr hydref.

### Cynllun Achub Morgeisi

**C12 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun achub morgeisi yng Nghymru? OAQ(3)3020(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio ddatganiad ysgrifenedig ar y cynllun ar 10 Mehefin, sy'n nodi'n glir sefyllfa'r cynllun achub morgeisi yng Nghymru.

### Tirwedd Cymru

**C13 Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am warchod tirwedd Cymru? OAQ(3)3006(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gydweithio â'i phartneriaid i helpu i ddiogelu a gwella'r tirwedd yng Nghymru. Mae'n gwneud hyn trwy gyfarfodydd rheolaidd â Gweinidogion ar ddatblygu'r blaenoriaethau strategol, a'r cymorth parhaus drwy'r grant blynyddol i awdurdodau'r parciau cenedlaethol, y cymorth grant i ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, a'r gronfa datblygu cynaliadwy.

*Tynnwyd cwestiwn 14 OAQ(3)3014(FM) yn ôl*

### Safonau Addysg

**C15 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella safonau addysg? OAQ(3)3003(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion, yn anelu at wella canlyniadau plant a phobl ifanc, yn enwedig drwy ganolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'n ceisio lleihau'r amrywiad o fewn a rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.